

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 12fed o Hydref 2022 am 7.30yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cyng. Catrin Johnson, Berwyn Harding, Idris Jones, Wyn Lewis, Lynne Mccrickett, Geraint Morgans, Arfon Hughes, John P Roberts, Rhys Davies, Sion Alun Roberts a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Catrin Johnson. Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng John P Jones.
2. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar y 31Awst ar gynnig Cyng. Wyn Lewis a'l eilio gan Cyng. Berwyn Harding.
3. **Materion yn codi**
 - a) **Materion Prifffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd yr ymateb i'r holl faterion i Gyngor Gwynedd a godwyd y tro diwethaf. Yng nghyswllt y cais am gyfyngiad cyflymder yn Aberangell, roedd cyswllt wedi ei wneud gyda Cyng Berwyn Harding, ac roedd cadarnhad y byddent yn cychwyn gyda arolwg arwyddion a marciau ffyrdd yn y pentref. Yng nghyswllt darn o dir yn Lawnt y Plas, roedd awgrym y dylid cysylltu a'r Adran Eiddo yn Gyngor Gwynedd i gael eglurhad llawn o union berchnogaeth a chyfrifoldebau y darnau tir. Eglurodd Cyng Arfon Hughes mai'r tir oddiamgylch sydd wedi ei drosglwyddo gan Adra i Gwmni Nod Glas, a oedd yn flaenorol gan Adran Tai y Cyngor. Cadarnhaodd nad oedd Cwmni Nod Glas ddim i'w wneud gyda'r maes parcio. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd Cyng John P Roberts a Cyng Arfon Hughes yn mynegi diddordeb yn yr achos yma gan fod cyfeiriad at Gwmni Nod Glas, ond atebwyd nad oeddynt yn gweld fod hyn ei angen. Cadarnhaodd Cyng John P Roberts nad oedd yn aelod o Gwmni Nod Glas ers y dyddiad y daeth yn Gyngorydd Sir. Dangosodd y Cadeirydd ddogfen Ty'r Cwmniau dyddiedig 2020 yn cadarnhau enw John P Roberts fel un o'r Cyfarwyddwyr, ond dywedwyd nad oedd hyn yn gywir, a bod ei enw i fod wedi ei dynnu oddiyno. Cadarnhawyd hyn gan Cyng Arfon Hughes. Cyfeiriwyd at y gohebiaeth ynglyn a cais i ledu man troi yn Minllyn. Adroddwyd eto am gerbydau yn troi am Minllyn, gan feddwl mai hwn oedd y troad am Dinas. Roedd angen codi hyn eto, a dangoswyd ohebiaeth gan aelodau o'r cyhoedd yn mynegi cwynion am hyn. Gwelwyd y dylid ail-ofyn am arwydd gyda'r geiriau 'Dim Ffordd Trwodd' arno. Hefyd darllenwyd ymateb i'r gwyn am gyflymder cerbydau i Lawnt y Plas, a gwelwyd fod 20mya yn rhy gyflym, ac y dylid gofyn eto am 'bumps' yn y ffordd ac arwyddion o blant yn chwarae. Darllenwyd ymateb o'r Uned Cefnffyrdd ynglyn a coed angen eu cwmpo ar y gefnffordd uwchlaw Dinas, ac adroddwyd fod hyn yn bryder mawr gan drigolion lleol. Yn dilyn trafodaeth, dywedodd Cyng Catrin Johnson a Geraint Morgans y byddent yn trefnu i fynd i ymweld a Osian Brynhyfryd i weld y sefyllfa yn iawn, gan ei fod ef wedi codi y mater.
 - b) Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi cysylltu gyda Adra ynglyn a'r tyllau ym maes parcio Lawnt y Plas, a'i fod wedi dangos y lleoliad yn fanwl iddynt. Nid oedd ymateb pellach i law. Dywedodd y Cadeirydd a'r Cyng Geraint Morgans y byddent yn edrych i mewn i hyn.
 - c) Llythyrru gyda Ambiwlans Awyr Cymru – yn dilyn llythyr gan y Cyngor Cymuned yn nodi siom am y bwriad i gau Canolfan y Trallwm, adroddwyd am yr ymateb a gafwyd a oedd yn 6 tudalen, a oedd wedi ei ddanfôn i'r Cyngorwyr ymlaenllaw.

Nodwyd siom yr adroddiad am lefel cyflog y Prif Weithredwr, a bod cyfarfod cyhoeddus wedi ei drefnu yn Porthmadog Nos Wener 14eg Hydref, yn dilyn adroddiadau am fwriad i gau safle Dinas Dinlle.

- d) **Arwyddion/ Biniâu baw cwn** – diolchwyd yn fawr iawn i'r Cyng Lynn Mccrickett am ei gwaith yn ymgynghori gyda'r gymuned, a'i bod wedi gosod 4 arwydd a oedd gan Cyng Arfon Hughes. Roedd angen 12 arall o leia, ac addawodd Cyng John P Roberts fod rhai gydag ef ar gyfer hyn, ond byddai angen mwy. Byddai Lynn yn cysylltu gyda'r Warden Cwn. Cadarnhawyd fod pob dim yn iawn i roi gwybodaeth am hyn ar wefan Mawddwy
- e) **Hysbysfwrdd Mallwyd** – cafwyd diweddariad gan Cyng Catrin Johnson fod y gwaith yn parhau gyda hyn, a'i bod yn cydweithio gyda Cyng John P Jones. Nodwyd fod un hysbysfwrdd hefyd yn maes parcio ger Blaewncywarch.
- f) **Byrddau gwybodaeth/dehongli** - adroddodd y Cadeirydd y Cyng Catrin Johnson fod y gwaith yn parhau, ac ei bod yn cydweithio gyda Elen o'r Parc Cenedlaethol. Roedd pob un bellach wedi eu glanhau, a byddent yn cael eu danfon I saer ym Mhenrhydeudraeth. Roedd gobaith y byddai'r gwaith wedi ei gwblhau erbyn y Nadolig.

g) **Cyfleusterau i blant dros 7 oed yn y Dinas** – trafodwyd ymhellach ar ol y tro diwethaf, ac roedd angen cadarnhad o'r perthnogaeth o'r tir dan sylw i ddechrau.

h) Atgoffwyd pawb o'r llythyr yn rhoi dyddiadau **cyfarfodydd blynyddol rhwng Cyngorau Cymuned a Pharc Cenedlaethol Eryri, sef Dydd Mawrth 25ain Hydref a Dydd Iau 27ain Hydref – rhwng 7 a 8.15yh**. Byddai unrhyw wybodaeth ychwanegol yn cael ei ddanfon i'r Cyngorhorwyr. Nodwyd y byddai rhain yn gyfarfodydd zoom, ac yn agored I unrhyw Gynghorydd.

4. Materion Cynllunio

Roedd un cais cynllunio wedi ei ddsbarthu i'r Cynghrowyr ers y cyfarfod diwethaf, sef;

NP5/74/505 – Adeiladu adeilad amaethyddol ynghyd a tho uwchben storfa dailac estyniad storfa tail – Brynuchaf Llanymawddwy.

Roedd ymateb wedi ei ddanfon yn dweud fod Cyngor Cymuned Mawddwy yn gefnogol i'r cais yma gan fod datblygiadau fel hyn ei angen ar gyfer deddfwriaeth newydd y llywodraeth.

(Roedd mynegiant diddordeb Cyng John P Roberts a Cyng Sion Alun Roberts wedi ei nodi wrth drafod hyn.)

5. Materion Cyllid.

Nodwyd balansau cyfrifon y Cyngor (12/10/22), sef Cyfri Cyfredol £8830, Cyfri Claddedigaeth £2182 Cyfri Cadw £769.04.

Cytunwyd i dalu costau etholiad gan Cyngor Gwynedd, sef £1690.01. Rhoddwyd manylion llawn yr anfoneb i'r Cynghorwyr. Nodwyd nad oedd y swm yma wedi ei raglweid wrth drafod y gyllideb, a byddai rhaid edrych yn fanwl ar y sefyllfa ariannol cyn penderfynnu ar gyfraniadau cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Cytunwyd i dalu cost HG Web Designs am gynnal a chadw a diweddarau y wefan, sef £250.

Roedd dau gais gerbron, sef Ty Gobaith ac Urdd Gobaith Cynru, a phenderfynwyd peidio cyfrannu, yn bennaf oherwydd sefyllfa y Cyngor o ran y gallu i gefnogi y tro hwn.

6. Gohebiaeth.

- a) Darllenwyd lythyr gan Gyngor Gwynedd ynglyn a cynllun Gwella Platform Digidol Gwynedd, a gofynnwyd I'r Clerc ei ddsbarthu I'r Cyngorhorwyr.
- b) Nodwyd lythyr yn hysbysu rhaglen waith Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd yn yr ardal ym mis Medi.
- c) Nodwyd ohebiaeth am ddeddfwriaeth lleihau cyflymder cenedlaethol o 30mya I 20 mya o fis Medi 2023.
- d) Nodwyd ohebiaeth am Arolygon Cymunedol gan y Comisiwn Ffiniau a democratiaeth Lleol – I'w ddsbarthu.
- e) Atgoffwyd pawb am yr ohebiaeth am hyfforddiant sy'n cael ei ddanfôn allan yn rheolaidd I'r Cyngorhorwyr. Gofynnwyd a oedd yn orfodol I Gyngorhorwyr gael hyfforddiant, a gwelwyd fod angen eglurhad.

7. Unrhyw Fater arall.

- a) Nodwyd fod brigau o'r coed sydd ar ochr Comin Dolybont yn cwmpo i'r ffordd gerllaw, ac roedd y sefyllfa yn ddrwg ar adeg gwynt a glaw.
- b) Adroddwyd fod graffiti ar arwydd ffordd ger cylchfan Mallwyd, ac roedd angen son wrth Adran Cefnffyrdd.
- c) Roedd cwynion am y cerbyd yn Lawnt y Plas, a oedd yno ers rhai blynyddoedd. Roedd angen mwy o wybodaeth.
- d) Roedd gwrych rhwng Dugoed Bach a'r Tyrpeg angen ei dorri, gan fod y ffordd yn culhau ac yn beryglys, yn arbennig pan oedd lorïau yn pasio.
- e) Roedd coed yn gordyfu ar yr hen ffordd rhwng Dinas ac Aberangell, yn arbennig ger Penybont. Roedd angen atgoffa am hyn eto.
- f) Adroddodd Cyng John P Roberts am gyfarfod diweddar lle soniwyd am doriadau mawr i gyllideb Cyngor Gwynedd. Byddai mwy o fanylion eto.
- g) Roedd tyllau yn y ffordd o Aberangell i gyfeiriad Aberllefenni, - rhwng mynedfa yr Esgair a tro Cwm Caws.
- h) Gofynnwyd a oedd mwy o dai gwag i'w rhoi ar restr i'w danfon i Gyngor Gwynedd.
- i) Gofynnwyd a oedd unrhyw wybodaeth diweddar yn dilyn y cyfarfod yn Eglwys Llanymawddwy, a dywedodd y Clerc nad oedd wedi clywed dim ymhellach.
- j) Cyfeiriwyd at diroedd Comin yr ardal, a'r mapiau a ddangoswyd yn y cyfarfod diwethaf. Cyfeiriwyd at ddarnau o dir heb eu cofrestru, lle roedd yn ymddangos nad oeddynt yn perthyn i neb. Gwelwyd fod angen cael map er mwyn cadarnhau yr union safleoedd, ac addawodd Cyng Arfon Hughes edrych i mewn i hyn a chael mwy o wybodaeth, yn arbennig a fyddai modd cofrestru yn enw y Cyngor Cymuned.
- k) Gofynnodd y Cyng Arfon Hughes am wybodaeth am pwy sy'n cynrychioli y Cyngor Cymuned ar wahanol bwyllgorau allanol, a rhestrodd y Clerc beth a

- gofnodwyd yn y Cyfarfod Blynyddol a gyfarfu ar y 25ain o Fai eleni. Dywedodd y dylid cael adroddiad/diweddariad lle roedd hyn ei angen. Os oedd rhywun yn methu mynd, yna dylid cysylltu gyda'r Clerc.
- l) Cyfeiriodd y Cadeirydd at drefniadau Sul y Cofio eleni, a gwahodd awgrymiadau o sut i symud ymlaen. Roedd y Parch Jen Evans wedi awgrymu llynedd y dylid gwahodd plant yr ysgol a phobl ifanc yr ardal i gymryd rhan. Dywedodd y Cyng John P Roberts mai ef oedd wedi trefnu yn y blynyddoedd diwethaf, ac nad oedd neb wedi cwyno am hyn. Gadawyd y mater felly yn nwylo Cyng John P Roberts. Byddai'r Clerc yn cael torch yn ol yr arfer ar ran y Cyngor Cymuned.
 - m) Adroddwyd am beryglon traffic yn ciwio pan mae cerbydau yn troi lawr am Gwm Tafolog ger Penrhiwcul. Roedd angen arwyddion i rybuddio defnyddwyr y ffordd. Roedd rhaid pasio hyn ymlaen i'r Uned Gefnffyrdd.
 - n) Trafodwyd trefniadau gosod y Goeden Nadolig o flaen y Neuadd eto eleni, a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Geraint Gwanas sydd wedi bod mor garedig i roi y goeden bob blwyddyn, gyda'i ddymuniad fod y Cyngor Cymuned yn rhoi cyfraniad o £50 i Sioe Dinas Mawddwy. Atgoffwyd pawb fod Ffair y Neuadd ar Nos Wener y 25ain o Dachwedd, ac y dylid cael y goeden tua wythnos ymlaenllaw. Nodwyd y byddai cyfarfod i'w gosod ar yr 20fed o Dachwedd, a byddai cyswllt pellach am hyn yn nes i'r amser.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD ABERANGELL NOS FERCHER
7fed Rhagfyr, 7.30yh.**

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.15pm.